



Dulcie James, arweinydd y noson, yn cyflwyno cennin Pedr i'r Tîm buddugol yn noson Hwyl Ddewi 2016

tud 5	tud 4 / 9	tud 10	tud 12
Clwb Ffermwyr Ifanc	Ysgolion	DNA'r Golygydd	Chwaraeon

Cartrefi Newydd i Dal-y-bont

Mae cais cynllunio i godi 22 o dai newydd gyferbyn â Gellimanwydd, Tal-y-bont wedi ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ac er y croeso gofalus a roddir i'r cynllun i ddarparu rhagor o gartrefi yn Nhal-y-bont codwyd rhai cwestiynau am faint, amseriad a lleoliad y datblygiad. Mae'r tir, a elwir Y Ddôl, ar y dde wrth droi cornel Maes-y-llan, mewn cae ar lan yr Afon Ceulan.

Yn ôl Dafydd ac Ellyw Jenkins, Tanrallt, sydd wedi cyflwyno cais i ddatblygu'r tir ar anogaeth adran Gynllunio Cyngor Ceredigion, mae hyn yn gyfle i ddarparu cartrefi fydd yn rhoi gobaith i drigolion lleol sydd yn dymuno aros yn y pentref, yn hytrach na symud i bentrefi a threfi cyfagos i fagu teulu. Bu nifer yn amheus o ddatblygiad Dôl Pistyll ar y dechrau ond gwelir bellach fod llawer o bobl leol wedi ymgartrefu yno ac yn gyrru eu plant i'r ysgol leol.

Mae Cyngor Ceulanamaesmawr, ar y llaw arall wedi codi nifer gwestiynau parthed y datblygiad, ac yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Cyngor cyflwynwyd nifer o sylwadau ar y cais:

Mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd fyddai yn llif y traffig ar y ffyrdd cul cyfagos. Byddai'r llif ychwanegol hwn yn creu anawsterau yn enwedig rhwng Brynhyfryd a'r Eglwys lle nad oes safle swyddogol i dynnu i un ochr. Maent yn pryderu hefyd y byddai llif traffig trymach yn ychwanegu at y problemau wrth y gyffordd sy'n cysylltu â phriffordd yr A487.

Ymhellach, wrth gynyddu llif y traffig ar y ffyrdd cul o amgylch y safle pryderai'r Cynghorwyr am ddiogelwch y ffordd i yrrwyr a cherddwyr.

Mae problem gyda'r system carthffosiaeth mewn rhannau o'r pentref a phryderai'r Cynghorwyr hefyd am allu'r system garthffosiaeth bresennol i ddelio â datblygiad sylweddol o dai fel hwn.

Nodwyd hefyd, gyda datblygiad o'r maint hwn, y dylid neilltuo gofod ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac amwynder i blant ifanc. Nid oes dim yn y cais ynghylch hyn.

Pryderai'r Cynghorwyr nad oes asesiad iaith wedi'i gwblhau ar y datblygiad arfaethedig. Mae cymuned Gymraeg fywiog yn Nhal-y-bont, a dylid ystyried hyn wrth gynllunio. Nid oes tystiolaeth yn y cais fod y nifer o dai yn cyfateb i'r galw lleol am dai newydd 3 a 4 ystafell wely.

Yn dilyn eu profiadau yn ystod llifogydd haf a gaeaf 2012, mynegwyd pryder hefyd gan y 'Llifogwyr' am effaith y datblygiad



Y Ddôl, Tal-y-bont, sef y cae lle arfaethir codi 22 o gartrefi newydd

ar orlffidir afon Ceulan oherwydd gallai codi tai a gosod concrit ar lannau'r Ceulan olygu fod mwy o ddŵr yn llifo i lawr yr afon i gyfeiriad gwaelod y pentref. Mae pryderon nad yw'r asesiad risg llifogydd a wnaed yn ddigonol, ac y byddai'r datblygiad yn codi lefel y dŵr ar waelod y pentref ac yn ychwanegu'n fawr at y risg o gael llifogydd.

Cwestiynau i'r Adran Gynlluniau yw'r rhai hyn wrth gwrs, gan fod y cae dan sylw eisoes o fewn y ffiniau lle caniateir datblygu ac mae'n gwneud synnwyr perffaith i'r datblygwyr fanteisio ar y cyfle i hyrwyddo'r datblygiad. Byddai'n rhoi tawelwch meddwl i'r gwrthwynebwyr, fodd bynnag, petai'r Adran Gynllunio'n medru cyflwyno tystiolaeth gadarn i ddangos fod eu pryderon yn ddi-sail.

Tybed hefyd, os caiff y datblygiad ei dderbyn, y bydd modd sicrhau nad yw'r tai i gyd yn cael eu codi ar yr un pryd, i roi cyfle i'r preswylwyr newydd ymdoddi i'r gymuned.

Phil Davies

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis

GOHEBYDDION LLEOL
Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont 832483
Parsel Henlllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais: Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais (01654) 781324

CYMDEITHAS PAPUR PAWB
Cadeirydd: Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont 832760
Is-gadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Tanysgrifiadau: Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyr

Cilmeri
Ffordd Ddewi
Aberystwyth

Annwyl Gyfeillion

Maltesers mewn Steddfod!

Tybed a fu yna gystadleuaeth symud Maltesers â gwelltyn ar lwyfan eisteddfodol o'r blaen?

Mae Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth bob amser yn cynnwys rhyw gystadleuaeth fach anarferol fel petai, hwla-hŵps oedd hi llynedd!

Ac mae yna le wrth gwrs i'r fath hyn o ysgafnder ymhlith y cystadlaethau mwy arferol - yr unawdau, llefaru, y corau a'r partion, yr unawdau sioe cerdd a'r canu emynau. Cynnal Steddfod leol i bawb yw nod y pwyllgor trefnu ac yn sicr mae'r cystadlaethau Sgen Ti Dalent yn wahoddiad agored i unrhyw un wneud unrhyw beth fydd yn diddanu cynulleidfai!

Mae rhaglen yr eisteddfod a gynhelir ar Ebrill 27 allan nawr - ac yn cynnwys y rhestr gwaith cartre' wrth gwrs. Hwnnw, ac enwau cystadleuwyr llwyfan i gyrraedd yr ysgrifennydd, Velvor Raw-Rees, Maesawelon, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BA neu drwy ebost i Aberystwyth@steddfota.org erbyn Ebrill 15fed.

Felly leni, beth amdani? Mae o leiaf un limrig ymhob un ohonom siŵr! A dyma'r dasg, limrig i gynnwys y llinell "I William pan oeddem yn caru..."

Pob lwc, ac mae croeso cynnes iawn i chi daro fewn am awren neu ddwy i gefnogi'r steddfod leol hon.

Yn gywir iawn

Dana Edwards

Cydllynydd Eisteddfod Calan Mai Morlan Aberystwyth

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Phil a Megan, gyda Siôn yn dylunio. Golygyddion mis Ebrill fydd Robat ac Enid (enid@yloffa.com) gyda Tanwen yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 1 Ebrill, a bydd y papur ar werth ar 8 Ebrill.

Awelon
Llanfarian

Nodyn o hwyl a diolch.

Erbyn hyn rydym wedi bod yn ein tŷ dros dro am dair wythnos. Roeddem wedi bod yn Llannerch am 30 mlynedd a Phennaber cyn hynny am ddeg. Bydd y cof am Dal-y-bont a'i thrigolion byth ymhell, ac yn gorfforol fyddwn ni ddim yn bell chwaith.

Y bwriad yw bod yn ein cartref newydd yn Aberystwyth erbyn mis Awst. Dau berson dŵad i Dal-y-bont oedd Harry a fi yn y 70au ac fel sawl cwpwl dŵad arall cawsom groeso a hwyl heb ei ail.

Bydd Tal-y-bont wastad yn gartref i Mali, Emsyl a Llio ac i Dal-y-bont y dânt a'u plant nôl i hel atgofion am y bobl a'r ardal a ddylanwadodd gymaint arnynt.

Diolch.
Medi a Harry

Nos Wener 18fed o Fawrth 7.30 o'r gloch

Aber Opera yn cyflwyno noson o glasuron byd yr opera yn Neuadd Talybont. Perfformiad offerynol gan y delynores Nest Jenkins.

Elw tuag at gynllun sgrinio'r galon, Calonau Cymru, Elusen y Galon dros Gymru

Trefnir gan Grŵp Llifogwyr Talybont

Dyddiadur

MAWRTH

12 Dadorchuddiad Mandala Siop Cynfelyn 3pm-4pm Dathliad mandala newydd a gnewyd gan y gymuned, gydag arweiniad Anne Thomas. Cerddoriaeth fyw gan Gwilym Morus-Baird, ffilm fer, a lluniaueth ysgafn.

13 Bethel 10 Gweinidog Rehoboth 10 Bugail Eglwys Dewi Sant 11 Cymun Bendigaidd

16 Yr Athro Bryn Hubbard yn trafod ei waith yn Antarctica, Yr Ynys Las a Svalbard 8 Y Llew Gwyn, Tal-y-bont Siop Cynfelyn 7.30 Theo Bard, cerddoriaeth acwstig fyw. Tocynnau £8 o'r Siop

17 Sefydliad y Merched Tal-y-bont Gwaith yr arlunydd Juliet Regan Eglwys Dewi Sant 7 Gwasanaeth Hwyrrol

18 Beth Angell 8 Llew Gwyn dan nawdd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Tal-y-bont (Oedolion yn unig) Aber Opera 7.30 Noson o glasuron byd yr opera yn Neuadd Tal-y-bont

20 Bethel 10 Trefniant lleol Nasareth 5 Nicholas Bee Rehoboth 10 Beti Griffiths Eglwys Dewi Sant 11.15 Gwasanaeth Sul y Blodau yn Eglwys Sant Matthew, Borth Cerdded Cletwr 8.30-10.30 Caroline de Carle. £3 y person. Rhaid arbed lle. Cysylltwch â Siop Cynfelyn Sesiwn Celf a Chrefftau i'r Teulu 2.30-4 Sesiwn celf a chrefftau'r Pasg yn Siop Cynfelyn. Derbynnir rhoddion ar gyfer deunyddiau

21 Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch Dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Siop Alys, Machynlleth

22 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn Ar Drywydd Dewi Sant (Gerald Morgan) 7.30 Llanfach Clwb Pysgota Tal-y-bont a'r Cylch Cyfarfod Blynnyddol 7.30 Ystafell Gyfeillion, Neuadd Goffa Tal-y-bont

24 Eglwys Dewi Sant 7 Gwasanaeth Dydd Iau Cablyd yn Eglwys yr Holl Saint, Llangorwen

25 Bethel 10 Oedfa Undebol Gwener y Groglith Eglwys Dewi Sant 2.30 Gwasanaeth y Groglith yn Llanfihangel Genau'r Glyn, Llandre Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Myfyrdodau a Gweddïau y Groglith

26 Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 2 Helfa Wyau Pasg gyda Byniau Crog i ddilyn yn yr Ystafell Haearn

27 Bethel 10 Oedfa Undebol Sul y Pasg Nasareth Cyfarfod Pregethu Bethel Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth Eglwys Dewi Sant 11 Gwasanaeth Teuluol y Pasg Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaidd Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth Cymun

28 Ffair Grefftau 3.30-5.30 Siop Cynfelyn. Stondinau crefftwyr lleol yn y Caffi.

31 Yr Ystafell Haearn 2 Ffilm, Spectre

EBRILL

3 Bethel 10 Uno yn Nasareth Nasareth 10 Bugail (C) Rehoboth 10 Richard Lewis Eglwys Dewi Sant 11 Boreol Weddi

Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaidd

5 Sefydliad y Merched Taliesin Aromatherapi (Vanessa Kniveton)

7 Eglwys Dewi Sant 7 Gwasanaeth Hwyrrol

9 Te Parti Calonau Cymru 2.30 Llanfach, Taliesin

10 Bethel 5 Gweinidog Rehoboth 10 Bugail (C) Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaidd

13 'Cadw'n ddiogel ar y we' 3.30-5.30 Siop Cynfelyn. Hyfforddiant digidol gyda Nigel Callaghan

Eglwys St. Pedr, Elerch

Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn gyda'n ficer, Y Parchg Andrew Loat a'i deulu, yn dilyn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar yn Swydd Caint.

Dymuniadau gorau i'r Parchg Ddr David H. Williams, Y Borth, a fu'n cynorthwyo gyda gwasanaethau eglwysig yn ardal Papur Pawb, yn arbennig yn ardal Llancynfelin ac Eglwys-fach, wrth iddo symud i ymgyrtrefu yng Ngholeg St. Barnabas, Lingfield, Surrey. Bydd ei gylch eang o ffrindiau yn gweld ei eisiau yn fawr iawn.

Brysiwch Adref

Dymunwn wellhad buan i Kathleen Richards, Y Bryn, Tal-y-bont sy'n gwella yn Ysbyty Tregaron yn dilyn anffawd yn y tŷ. Brysiwch adre'n fuan.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Myfanwy James yn dilyn ei damwain yn ddiweddar. Mae Pwyllgor y Neuadd a staff yr ysgol yn anfon cofion cynnes atoch.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â Brenda Jeeves, Llys-y-coed, Taliesin, ar golli ei hannwyl ŵr Jack ym mis Chwefror. (Gweler y deyrnged i Jack yn y rhifyn hwn).

Symud Tŷ

Trist i drigolion Taliesin oedd gorfod ffarwelio â Llio Rhys a Tom Cosson, Hopcyn a Martha, wrth iddynt symud o Fryn Arian, Taliesin i fyw i Lannerch, Tal-y-bont ym mis Chwefror. O leiaf dydyn nhw ddim yn rhy bell i ffwrdd a dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

Croesawu a Ffarwelio

Wrth groesawu Llio, Tom, Hopcyn a Martha i Lannerch, Tal-y-bont, mae'n chwith iawn meddwl fod Harry a Medi James wedi symud ar ôl dros 40 mlynedd yn Nhal-y-bont. Mawr yw ein diolch iddynt fel Papur ac fel cymdogaeth am eu cyfraniad clodwiw i fywyd diwylliannol a chymdeithasol y fro. Bydd yr ardal dipyn tlotach o'u colli. Dymunwn pob hapusrwydd iddynt yn eu cartref dros dro yn Llanfarian ac yna yn Aberystwyth.

Pobl a Phethe

YSGOL SUL BETHEL



Braf oedd cael croesawu Ysgol Sul Bow Street atom ar fore Sul, 7 Chwefror. Trefnwyd sesiwn hwyl yng ngofal Zoe, swyddog ieuenctid Menter Gobaith Gogledd Ceredigion yn y Neuadd Goffa.

Wedi i'r plant gyflwyno eu hunain treuliodd orig ddifyr yn chwarae gemau hwyliog a bywiog gyda Zoe'n cadw trefn ar bawb. Darparwyd lluniaeth i'r plant ac i'r oedolion yn ystod y sesiwn y sesiwn.

Arbrawf newydd hynod lwyddiannus oedd y gweithgaredd yma chytunodd pawb y byddai'n braf dod at ein gilydd eto yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Hannah Foulkes a Carl Pritchard, Pen-y-bryn, Tal-y-bont ar enedigaeth eu mab Alfie, brawd bach i Maisie, ar 22 Chwefror.

Toriad Dewr

Pob canmoliaeth i Libby Foulkes (11 oed), Foelas, Taliesin a wirfoddolodd i gael ei gwallt golau hir a hardd wedi ei dorri i wneud wig i Ymddiriedolaeth y Dywysoges Fach er mwyn helpu rhywun ifanc sydd wedi colli'i wallt oherwydd canser neu lewcemia. Bu'n tyfu ei gwallt am dair blynedd at yr union ddiben hwn! Nod Libby yw codi £350 i'r elusen – os ydych chi am ei noddi, ewch at ei thudalen Just Giving: <http://crowdfunding.justgiving.com/shelley-foulkes>. Bydd unrhyw arian dros ben yn mynd i ward y plant Ysbyty Bronglais.

Cydymdeimlad

Bu farw Mrs Joan Reen, Gwesty Ynyshir 12 Chwefror yn dilyn salwch hir, cydymdeimlwn â Rob Reen a'r teulu.

Sefydliad y Merched Eglwysfach

Llongyfarchiadau i'r sefydliad ar ennill cystadleuaeth y sir am y llyfr lloffion gorau. Dymunwn pob hwyl ichi yn y gystadleuaeth genedlaethol.

Ffilm

Dangosir SPECTRE, ffilm newydd James Bond, yn yr Ystafell Haearn 31 Mawrth, 2.00pm. Croeso i bawb, ni chodir tâl ond derbynnir rhoddion at yr Ystafell Haearn.

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Croesawyd Einion Gruffudd, Aberystwyth i'r cyfarfod ar nos Lun, 15 Chwefror, gan Ann

Jenkins. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn ganddo am brosiect Cynefin yn y Llyfrgell Genedlaethol sydd wrthi'n adfer a digido mapiau'r degwm fel bod modd i unrhyw un fynd ar-lein i weld y mapiau. Mae'r mapiau yn cynnwys llawer o wybodaeth fel enwau perchnogion tir ac enwau caeau, felly mae'n bwysig eu bod yn cael eu diogelu. Dangoswyd enghreifftiau o'r wybodaeth sydd ar gael ar y mapiau am rai o'r ffermydd lleol. Diolchwyd i Einion am noson ddiddorol iawn gan Carys Briddon.

Cymdeithas y Chwirydd

Ein gŵr gwadd yn y cyfarfod ar brynawn Mawrth, 9 Chwefror, yn festri Rehoboth, Taliesin, oedd Glan Davies, Aberystwyth. Cawsom ganddo hanes ei fagwraeth ym Mrynaman, a hefyd y storïau a'r hiwmor oedd yn perthyn i nifer o gymeriadau'r ardal. Roedd ei gyflwyniad yn llawn hanesion digri am ei gyfnod yn gweithio gyda Ryan a Ronnie ac eraill ym myd y cyfryngau, a mwynhawyd ei gyfraniad yn fawr iawn. Diolchwyd iddo am brynawn hwyliog iawn, ac yna mwynhawyd y te a'r cacennau oedd wedi eu paratoi gan Meinir Fleming a Mona Rowlands.

Clwb Pysgota Tal-y-bont a'r Cylch

Cyfarfod Blynnyddol
Nos Fawrth, 22 Mawrth 2016
Ystafell Gyfellion, Neuadd Goffa Tal-lybont
7.30pm
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Eric Roberts
01970 832 336

Yr Athro Bryn Hubbard

Canolfan Rhewlifeg Prifysgol Aberystwyth ac enillydd Medal y Pegynau yn trafod ei waith yn Antarctica, Yr Ynys Las a Svalbard.
Nos Fercher 16 Mawrth
8 o'r gloch
Y Llew Gwyn, Tal-y-bont
Trefnir y noson gan Grŵp Llifogwyr Talybont

Ysgol Tal-y-bont

Gŵyl Offerynnol Ceredigion

Llongyfarchiadau mawr i Megan Glover am ddod yn drydydd yn yr unawd pres i flynyddoedd 6 ac iau yng Ngŵyl Offerynnol Ceredigion.

Gŵyl yr Urdd Cylch Aberystwyth

Bu llawer o blant yr ysgol yn cystadlu yn y rhagbrofion a'r Eisteddfod gylch ac fe gafwyd llawer o lwyddiant eleni eto ac i un ferch yn arbennig. Dyma'r canlyniadau –

Llefaru Bl 4 ac iau – Miriam 1^{af}

Unawd Bl 4 ac iau – Miriam 1^{af}

Unawd alaw werin Bl 6 ac iau – Miriam 2^{il}

Unawd cerdd dant Bl 6 ac iau – Miriam 3^{ydd}

Ymgom blwyddyn 6 ac iau – 2^{il}

Parti unsain blwyddyn 6 ac iau – 2^{il}

Hoffwn i ddiolch i rieni a ffrindiau'r ysgol am eu gwaith yn paratoi'r plant ac am gludo'r plant i'r gwahanol eisteddfodau. Hoffwn ddiolch yn arbennig am gymorth Catrin Mai, Catrin Jones a Siôn Pennant am roi o'u hamser i ymarfer gyda'r plant. Hoffwn ddiolch yn fawr i'r staff i gyd hefyd am bob cymorth ar yr adeg prysur yma.

Gweithgareddau LLESOL

Mae'r gweithgareddau wedi parhau yn ystod mis Chwefror eto a'r tro hwn roedd hi'n hyfryd i gael croesawu Steffan Price, Swyddog Chwaraeon yr Urdd i redeg sesiwn ffitrwydd cylched yn y Neuadd Goffa. Criw bach ond egniol iawn ddaeth i'r noson yma ac roedd pawb yn teimlo'n lawer gwell ar ôl yr holl ymdrech. Diolch i Anwen Curran am barhau i drefnu'r gweithgareddau ar ran yr ysgol.



Ysgol Eco

Wedi sawl ymgais aflwyddiannus, roedd hi'n hyfryd i gael chwifio baner werdd Ysgol Eco o'r diwedd, ac mae ei gosod ger y tŷ Malawi'n fodd o'n hatgoffa am y gwaith da a wnaethpwyd i sierhau'r faner yn y lle cyntaf.

Wythnos e-ddiogelwch

Roedd hi'n braf gallu croesawu Sera Llewelyn, Swyddog Enwebedig Amddiffyn Plant Ceredigion i'r ysgol i atgyfnerthu'r negeseuon pwysig am e-ddiogelwch gyda'r staff a gyda'r plant.

Cwriwcwlwm Cymreig

Cafwyd gweithdy arbennig arall gan yr artist lleol Ruth Jên yn yr ysgol yn ystod y mis gyda dosbarth y Cyfnod Sylfaen. Roedd hi'n amlwg fod y plant wedi mwynhau'n fawr yn ei chwmni ac wedi dysgu llawer am y grefft o argraffu a chreu collage.



Criw'r Ymgom (isod, chwith). Y Parti Unsain (uchod).



Pythefnos Masnach Deg

I gyd-fynd gyda agenda Ysgol Iach yr ysgol, cafwyd gwasanaeth pwrpasol iawn am bwysigrwydd prynu bwydydd Masnach deg i helpu ffermwyr mewn gwledydd eraill ar draws y byd. Diolch i Mrs Rhys am drefnu ac i'r plant am ymateb mor arbennig wrth ddysgu'r ffeithiau.

Neges Gwrth-Fwlio

Mae Ysgol Tal-y-bont yn hoffi rhoi cyfleoedd gwahanol i'r plant fynegi eu hunain yn yr ysgol ac roeddem wrth ein bodd i gytuno bod merched Blwyddyn 5 a 6 yn cynnal gwasanaeth am fwlio. Cawsom gyflwyniad bwyrus iawn ganddyn nhw ac roedd y plant eraill i gyd wedi gwrando'n astud ar y neges.

Arolygiad

Mae staff, rhieni, plant, llywodraethwyr a ffrindiau'r wedi bod wrthi'n ddiwyd iawn yn paratoi ar gyfer arolygiad gan ESTYN. Ar ôl gaeaf caled roedd wir angen twtio a chymhennu a rydym yn ddiolchgar iawn i baw sydd wedi helpu dros yr wythnosau diwethaf i wella golwg yr ysgol ac yn falch iawn o'r cydweithio hyn er lles holl blant yr ysgol.

Brysiwch wella

Er mawr siom i ni yn yr ysgol, fe gafodd Mrs Myfanwy James ddamwain ar ddiwedd mis Chwefror ac rydym yn gweld ei cholli yn fawr yn yr ysgol ar hyn o bryd. Brysiwch wella Myfanwy a brysiwch nôl atom yn fuan.

Siaradwyr Cymraeg

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am gael eu gwobrwyo fel siaradwyr Cymraeg yr wythnos yn ystod mis Chwefror – Shae, Becca, Swyn, Tomos a Sean. Daliwch ati.

Cogurdd

Llongyfarchiadau mawr i Catrin Jones am ennill cystadleuaeth Cogurdd yn yr ysgol ac am gynrychioli ni yn y rownd rhanbarthol yn Llanbedr Pont Steffan. Da iawn ti Catrin, mae Bryn Williams yn crynu yn ei esgidiau!



Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Cast, cyfarwyddwr, set, sgript...

...mae'n amser drama!

Pan gyrhaedda Chwefror mae'r clybiau Ffermwyr Ifanc yn tawelu, nid i ddianc i'r sied wyna, ond i'r llwyfan i baratoi ar gyfer cystadleuaeth adloniant y sir. Tro y ddrama oedd hi eleni a roedd y clwb yn edrych i wneud ei farc ar lwyfan Theatr Felin-fach.

Penderfynodd y clwb, gyda help ein cyfarwyddwr Catrin Mai, berfformio rhan o ddrama Geraint Lewis sef 'Y Cinio'. Trawsnewidiwyd 5 actor i fod yn aelodau amlwg yng nghlwb rygbi Cwmbrain, lle roeddent yn dathlu yng nghinio blynyddol y clwb. Tybed pwy oedd yn mynd i gael gwobr chwaraewr y flwyddyn? Tybed pwy oedd y siaradwr gwadd?

O'r cychwyn cyntaf roedd yn amlwg bod drwgdeimlad rhwng Trysorydd y clwb, 'Rol Bach', a 'Hefin' wrth i'r ddau ymladd i gael y gorau o'i gilydd trwy gydol y noson. Yn trio cadw'r heddwch rhwng y ddau oedd 'Cadno', capten y clwb, ac yn wir roedd ganddo lond llaw i ddelio ag e, er mwyn cadw'r sosban rhag berwi drosodd. Roedd y cinio yma'n mynd i fod yn "un arbennig iawn" wrth i 'Iwan' cyn chwaraewr y clwb ddychwelyd ar ôl cyfnod caled yn ei fywyd, ac hefyd gan fod yna dro cyntaf am bopeth, "roedd menyw yn mynd i fod yn bresennol, fel siaradwr gwadd". Daeth 'Ruth Francis' i mewn i'r olygfa a llwyddodd i gorddi'r dyfroedd rhwng 'Rol bach' a 'Hefin'! Wrth i'r cwrw lifo roedd y siarad gwag yn gwaethgu, hyder 'Hefin' yn magu, y tensiwn yn adeiladu a tymher 'Rol' yn fflamychu, doedd dim syndod bod 'Y Cinio' yma yn mynd i fod yn un i'w chofio! Digon o hwyl, chwerthin, cwrw, drama, a hyd yn oed gwaed yng nghlwb rygbi Cwmbrain!

Dyfarnwyd y ddrama yn drydydd allan o bymtheg o glybiau ar hyd Ceredigion, gyda Pont-siân yn ail a Llangeitho yn cyrraedd y brig. Llwyddiant i'r criw ar ôl gwario amser ac ymdrech arbennig er mwyn cael y perfformiad safonol. Enillodd Dewi Jenkins, Tyngraig y wobwr gyntaf am yr actor gorau o'r holl actorion wnaeth berfformio ar lwyfan Theatr Felin-fach! Llonyfarchiadau mawr iddo – tipyn o gamp! Efallai eich bod wedi clywed am lwyddiant Dewi mewn maes arall gyda'r ffermwyr ifanc, wrth iddo gipio'r teitl 'Ffermwr Ifanc y Flwyddyn 2016-17'. Mae'r clwb yn falch iawn o dy lwyddiant a phob lwc gyda dy gyfrifoldebau newydd.

Ers cystadlu, cawsom gyfle i berfformio'r ddrama unwaith eto yng nghyngerdd adloniant y sir yn Felin-fach, yn y noson ddrama yn Nhal-y-bont, ac yn Llanafan gyda chlwb Trisant ar y 9fed o Fawrth. Ar Ddydd Gŵyl Dewi, gwahoddwyd Clybiau Trisant a Bro Ddyfi i gynnal noson o ddrama'u daeth llond Neuadd o bobl i wyllo. Cyflwynwyd sieciau o'r arian a godwyd wrth ganu carolau i ddwy elusen, sef Ambiwlans Awyr Cymru a HAHAV, sieciau o £1015.82 yr un.

Diolch yn fawr iawn i bawb wnaeth gyfrannu at wneud y ddrama yn llwyddiant, ymlaen â ni!

Steffan Nutting

CRONFA GOFFA'R FONESIG GRACE JAMES

Gwahoddir ceisiadau oddi wrth fudiadau neu gymdeithasau'r henoed am gymhorthdal o'r gronfa uchod. Dylai'r gymdeithas fod o fewn ffiniau hen Gyngor Dosbarth Aberystwyth. Gellir cael ffurflenni cais oddi wrth yr ysgrifennydd a dylid eu dychwelyd cyn 31 Mawrth 2016.

Yr ysgrifennydd yw:

Mary Jones

Lleifior

27 Glan Rheidol

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth SY23 3GG

01970 624408 lleifior@dircon.co.uk



Rhys Richards Cadeirydd, Steffan Nutting Trysorydd, Rhydian Evans Ysgrifennydd, Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yn cyflwyno dwy sic o £1,015.82 yr un i Meurig Lewis Trysorydd HAHAV a Brian Whelham gwirfoddolwr gydag Ambiwlans Awyr Cymru.

Llun: Arvid Parry Jones

Teyrnged i Jack Arthur Jeeves, Llys-y-coed, Tre Taliesin

Bydd llawer o bobl yn drist o glywed am ymadawiad Jack ar 17^{eg} Chwefror yn 86 oed. Gŵr bonheddig go iawn oedd Jack ym mhob ystyr y gair. Dyn caredig, diymhongar, hael a meddylgar a feddai ar hiwmor rhadlon braf. Dw i'n teimlo'n freintiedig fy mod wedi cael ei nabod, os dim ond am gyfnod cymharol fyr.

Mi gwrddais â Jack am y tro cyntaf pan oedd yn siopa yn Siop Cynfelyn. Mae Jack a'i wraig, Brenda, wedi bod yn gefnogwyr pybyr o'r siop gymunedol o'r cychwyn cyntaf. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, dw i wedi bod yn helpu Jack gyda'i ardd ac wedi cael sawl pwt o gyngor buddiol ganddo gan gynnwys sut i fod yn hollol ddidrugaredd! Ei ddileit pennaf oedd y gwely asbaragws mawr y byddai'n gofalu mor dringar amdano ac erbyn hyn, arna i mae'r cyfrifoldeb i sicrhau cnwd da i Brenda ei fwynhau yn ystod yr haf eleni.



Cyfarfu Jack a Brenda tra oeddent yn gweithio i'r *Mighty Pru*, pencadlys Cwmni Yswiriant y Prudential yn Llundain. Bu'r ddau'n adrodd toreh o straeon wrtha i am eu hamser yno ac am faint roeddent nhw wedi mwynhau byw ar gyrion Coedwig Epping. Cawsant anturiaethau lu dramor yn enwedig yn Ffrainc, gwlad y bydden nhw'n ymweld â hi'n aml, gan bicio draw ambell waith i gael eu cinio dydd Sul yno!

A hithau'n frodores o Dal-y-bont, pan wnaethon nhw ymddeol o'r *Mighty Pru*, roedd Brenda'n awyddus i ddychwelyd i Gymru. Roeddent yn hapus iawn yn byw yn eu cartref hyfryd yn Nhre Taliesin sy'n tremio dros un o'r golygfeydd mwyaf godidog o aber afon Dyfi – lle perffaith i wyllo adar, rhywbeth oedd wrth fodd calon y ddau. Bob blwyddyn byddent yn mwynhau aml i daith i Brosiect Gweilch Dyfi sy'n derbyn rhoddion er cof am Jack.

Jenny Fell, cymdoges, ffrind a chyd-arddwraig.
Dydd Dewi Sant 2016

Clwb Nos Wener



‘Teulu’ o ardal Llanfyllin, Sir Drefaldwyn oedd yn diddanu aelodau Clwb Nos Wener ym mis Chwefror. Fe wnaethant chwarae cyfuniad bywiog o gerddoriaeth werin Gymreig, eu caneuon eu hunain a nifer o setiau clocio. Aelodau ‘Teulu’ yw Sioned Northeast (ffliwt, gitâr, llais a chlocio), Eleri Northeast (ffliwt, llais, a chlocio), tad Sioned ac Eleri, Gary Northeast (acordion, gitâr, a llais), ac Emma Lincoln (ffidil, llais, a chlocio). Ychwanegiad newydd i ‘Teulu’, sef Sophie Neal (telyn, cello, llais, a chlocio) oedd aelod olaf y grŵp a mawr oedd gwerthfawrogiad y dorf o’u doniau.

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o’r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd mis Chwefror.

1. Cynghorydd Newydd ar Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Estynnodd y Cadeirydd, David Evans, groeso cynnes i gyngorydd newydd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr: Nia Evans, Rhiwlan.

2. Ffens Maes-y-Deri

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda Thai Ceredigion i adrodd fod bwllch yn y ffens ar gyrion Maes y Deri ger y Cae Bach: mae’r bwllch rhwng y giât a’r goeden dderw. Dywedodd Tai Ceredigion y byddai rhywun yn dod allan ymhen wythnos i archwilio’r safle.

3. Baw Cŵn

Adroddodd y Clerc iddi adrodd y broblem o faw cŵn yn Nhal-y-bont (yn enwedig rhwng y Spar a’r Neuadd Goffa) i adran Iechyd Amgylcheddol, Cyngor Sir Ceredigion. Adroddodd yr adran nad oedd warden cŵn bellach, ac felly nid oes patrolau’n cael eu cynnal bellach. Cyngor yr adran oedd i unigolion adrodd unrhyw achosion yn uniongyrchol iddynt drwy alw 01545 572105 neu e-bostio envhealth@ceredigion.gov.uk. Nododd yr adran Iechyd Amgylcheddol bod adroddiadau yn gryfach gyda lluniau o’r unigolion yn troseddu ac enw’r troseddwr. Cytunodd y Cyngor i ofyn i’r Cyngor Sir am ragor o sticeri rhybudd i roi ar byst yn y pentref.

4. Adroddiadau amrywiol i adran Gwasanaethau Technegol, Cyngor Sir Ceredigion.

Adroddodd y Clerc iddi ymholi ynglŷn â nifer o broblemau ar y priffyrdd i’r Cyngor adrodd i’r Cyngor Sir dros y misoedd diwethaf. Nid oedd diweddariad ar; archwilio ffordd Cwm Ceulan; dŵr yn dod drwy’r gratin ger Gorwelion; arwydd ffordd coll ‘Ponterwyd’ yng Nghwm Ceulan; llythrennu coll arwydd ffordd ger Gorwelion; niwed i’r ffordd ym Mont-goch ger Cwmere a Tancae. Cytunwyd i’r Clerc barhau i ddilyn y materion. ‘Roedd diweddariad ar yr adroddiad o ddifrod i’r ffordd ger Glanrafon, Tal-y-bont: bydd y nam yn cael ei gynnwys yn y rhaglen waith nesaf ar gyfer hewlydd yn yr ardal.

DNA Cymru

Tybed faint ohonoch, wrth wyllo’r gyfres ddiddorol ddiweddar ar S4C a demtiwyd i gynnal prawf ar eich DNA er mwyn ceisio darganfod ychydig mwy am darddiad eich cyndeidiau. Mae’n hysbys mai o Affrica y daeth y mudwyr cyntaf i Ewrop (a gweddill y byd o ran hynny) ond i ba gangen yn union o’r hynafiaid hyn yr ydych fel unigolyn yn perthyn go iawn?

Gan fy mod wedi creu coeden deuluol sy’n mynd yn ôl i ganol y 18^{fed} ganrif roedd yn naturiol i mi foeli fy nghlustiau pan glywais fod prawf yn cael ei gynnig fyddai’n rhoi darlun i mi o darddiad un llinach o’r cyndeidiau miloedd o flynyddoedd cyn hynny. Aeth fy chwilfrydedd yn drech na mi, archebais y prawf, a bellach gallaf ddweud wrth y byd a’r betws fy mod yn medru olrhain fy nhras trwy’r Chromosome Y (sef ochr fy nhad) i’r haplogrŵp R1b-S145 y rhoddwyd yr enw ‘Pretani’ arno.

Beth yw ystyr hynny, medde chi? Yn ôl esboniad y cwmni o’r Alban fu’n cynnal y profion, daeth y Pretani i’r ynysydd hyn tua 4,500 o flynyddoedd yn ôl, ac fe’i hadweinir yn y llyfrau hanes fel Pobl y Biceri. Mwy na thebyg eu bod wedi croesi i’r ynysydd hyn o gyfeiriad Iberia (gogledd Sbaen a Galisia efallai). Roedd ganddynt sgiliau trin copr a chreu llestri a’r dybiaeth bellach yw eu bod wedi goresgyn y poblogaethau brodorol gwreiddiol, nes i’w diwylliant oroesi. Mae 46% o boblogaeth Cymru yn cario DNA y Pretani, tra bod canran poblogaeth Munster, yn Iwerddon sy’n ei gario yn cyrraedd 58%.

Yn ogystal, mae profi’r DNA mitochondrial (sef ochr fy mam) yn dangos fy mod yn ddisgynydd trwy un llinell i’r haplogrŵp T a elwir yn ‘Fforwyr’, sef gwragedd a drigai ar un adeg yng ngorllewin Asia. Mae 13% o drigolion Cymru a brofwyd yn cario’r nod yma, sef yr un canran a thrigolion Palestina. Yr unig boblogaethau sydd â chanran uwch yw trigolion Azerbaijan (17%) Moroco (18%) a’r Aifft (23%). Roedd y gwragedd hyn yn perthyn i gymunedau crwydrol yn hela cnau a ffrwythau a mân anifeiliaid gan fyw yn aml yn ymyl dyfroedd, lle defnyddiwyd eu sgiliau hela i ddal pysgod a chregyn. Mae’n bur debyg iddynt gyrraedd yr ynysydd hyn wrth i Oes y Rhew ddirwyn i ben rhyw 10,000 o flynyddoedd dyn ôl. Byddent yn drigo ar y gwastadeddau i gychwyn, megis y tir lle mae Môr Hafren neu Fae Ceredigion heddiw, sef y tir a foddwyd wrth i lefel y môr godi. Roedd eu disgynyddion yn byw yma pan gyrhaeddodd y Pretani.

Mae’n demtasiwn, wrth gwrs, i geisio dychmygu un o fy nghyndeidiau Iberaidd cynnar yn swyno un o’r cynfamau brodorol gyda’i lestri cain neu ei bygwth gydag arf miniog. Ofer, fodd bynnag, yw ceisio defnyddio’r profion hyn i ddod i gasgliad am unrhyw unigolyn. Gwerth pennaf y profion yw rhoi sampl digonol i’r ymchwilyr er mwyn iddynt fedru creu darlun cymharol o wahanol boblogaethau. O gael digon o samplau ar draws y byd mae modd iddynt chwilio am batrymau fydd o gymorth i haneswyr wrth iddynt astudio’r gorffennol, gan astudio’r canlyniadau DNA ochr yn ochr â chanlyniadau archeolegol.

Camgymeriad o’r mwyaf fyddai defnyddio’r profion i geisio honni fod rhai ohonom yn Gymry o dras purach nac eraill. Yr hyn sy’n hardd ac yn ddeniadol am Gymreictod yw ei fod yn agored i bawb sy’n dewis trigo yn ein plith ac yn teimlo eu bod yn perthyn i’r genedl fach hon. Camgymeriad y rhaglenni oedd llongyfarch rhai unigolion wrth iddynt ddarganfod eu bod yn perthyn i linach arbennig. Ni ddylid trin na dadansoddi’r profion hyn yn y fath fodd, ond yn hytrach eu derbyn fel un darn arall fydd yn cynorthwyo haneswyr i greu darlun llawn o jig-so rhyfeddol ein cenedl. Byddai’n dda o beth hefyd i atgoffa rhai gwleidyddion bod ein cyndeidiau cynharaf yn fewnfudwyr a’n bod i gyd yn medru olrhain ein tras i Affrica.

Phil Davies

O'r Cynulliad

Ar ôl i Gyllideb Drafft y Cynulliad ddod â chryn dipyn o newyddion drwg i Geredigion ar ddechrau'r flwyddyn, rwy'n falch o allu adrodd rhywfaint o newyddion gwell.

Yn gyntaf, roedd y Gyllideb wreiddiol wedi bwriadu torri 10% o'r cyllid ar gyfer cefnogi cyhoeddwy. Byddai hyn wedi taro'r fasnach lyfrau, yn enwedig yn Gymraeg, ac yn fygythiad gwirioneddol i nifer o gwmnïau argraffu lleol. Wedi ymgyrch fywiog, ni fydd toriad bellach yn y gyllideb hon. Mae'r toriadau i gyllid ein prifysgolion, sydd eto'n bwysig iawn i Geredigion, hefyd yn mynd i fod gryn dipyn yn llai na'r bwriad gwreiddiol. Er, mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn dal i gael ei dan-ariannu, a bydd rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru fynd i'r afael â hyn. Roedd hefyd ychydig o arian ychwanegol i lywodraeth leol, ond mi fydd ein Cyngor Sir yn dal i wynebu toriadau llym unwaith eto.

Mae dyfodol gwasanaethau post mewn dwy ardal yn peri gofid. Rwy'n ymgyrchu yn erbyn bwriad i gau Swyddfa Bost y Goron yn Aberystwyth, a symud i rannu gofod gyda siop. Mae'r adeilad yn un hanesyddol ar y stryd fawr, ac mae'n hanfodol fod gan bobl Aberystwyth swyddfa digon mawr a hygyrch. Mae pryder hefyd yn Nhregaron wrth i'r Swyddfa Bost yno symud i gyd-leoli gyda'r Spar ar y sgwâr. Nid oes sicrwydd ar hyn o bryd beth fydd yn digwydd i'r swyddfa ddidoli, ac rwy'n gobeithio bydd y Post Brenhinol yn dod i'r dre i gwrdd â'r Cyngor Cymuned a rhoi atebion i bobl leol.

Braf oedd cael mynychu dau ddigwyddiad yn y mis diwethaf oedd yn dangos pwysigrwydd amaeth i'r economi wledig. Cynhaliodd Undeb Amaethwyr Cymru ei brecwastau enwog, sydd yn ffordd wych o ddangos cynnyrch ffermwyr Cymru. Hefyd, cynhaliodd yr NFU ddigwyddiad ger Castellnewydd Emlyn lle gwahoddwyd nifer o fusnesau gwledig sydd oll yn gyd-ddibynol ar amaeth. Bu llynedd yn flwyddyn anodd i amaeth, gyda phrisiau gwael mewn mwy nag un sector, ac oedi yn y taliadau sengl; da felly oedd y cyfle i atgoffa pobl am bwysigrwydd y diwydiant.

Llongyfarchiadau hefyd i fudiad CFFI ar lwyfannu 15 o ddramâu Cymraeg yn Theatr Felin-fach. Roedd pob noson yn safonol a mwynheais y tri welais i yn fawr. Llongyfarchiadau i glwb Llangeitho ar eu llwyddiant, a phob lwc iddynt wrth gynrychioli Ceredigion ar lefel genedlaethol.



STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi

Bocses a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

Wales REMOVALS

www.midwalesremovals.co.uk

INVESTORS | BUDSODWYR
IN PEOPLE | MERNYDOL

Enillwyr ardal Papur Pawb yn Eisteddfod Ysgol Penweddig

Captan ac arweinydd côr Llys Hywel (y llys buddugol) – Niamh O'Donnell, Maesnant

Cystadleuaeth y Goron – Esther Llwyd Ifan, Llys Alaw; ail Llŷr ab Einion (wyr Robot ac Enid Gruffudd)

Gwobr Goffa Non Taylor i'r Offerynnwr Gorau – Medi Evans, Neuadd Fawr

Tlws Lledrith Llew (rhyddiaith blwyddyn 7-9)- trydydd Eryllt ab Einion (wres Robot ac Enid Gruffudd)

Tlws y Cerddor- ail Medi Evans, Neuadd Fawr; trydydd Betsan Siencyn, Tanrallt

Unawd Offerynnol blwyddyn 7-9 – trydydd Glain Llwyd Davies

Unawd Offerynnol blwyddyn 10-13 – cyntaf Medi Evans; ail Betsan Siencyn

Llefaru blwyddyn 7-9 – ail Glain Llwyd Davies

Ensemble Sioe Gerdd – Llys Hywel (Niamh O'Donnell yn un o'r pedwar)



Llongyfarchiadau i Esther Llwyd Ifan, Tal-y-bont ar ennill Coron Eisteddfod Ysgol Penweddig am ysgrifennu stori fer.

Cronfa Eleri 2015

Eleni mae Cronfa Eleri (sy'n cael ei gynnal o elw fferm wynt Mynydd Gorddu ers 1998) wedi rhannu cyfanswm o £18,448 mewn cymorth i achosion lleol teilwng. Yr achosion a fu'n llwyddiannus oedd: Cwmni Licris Olsorts, Bow St, Tal-y-bont a Bontgoch; Cymdeithas Henoed, Bow St; Neuadd Llanfach, Taliesin; Ysgol Rhydypennau; Clwb CIC; Cylch Meithrin Trefeurig; Clwb Pêl-droed Bow St; Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch; Capel Noddfa, Llandre; GMB Teithiau Tywys; CFFI Tal-y-bont; Clwb ar ôl Ysgol Tal-y-bont; Cylch Meithrin Rhydypennau; Clwb Pêl-droed Tal-y-bont. Diolch i aelodau o Bwyllgor Cronfa Eleri am eu hymdrechion wrth cloriannu'r ceisiadau.

Rhwng 1998 a 2015 derbyniodd y gronfa geisiadau am gymorth o dros £441,000 gan 251 o ymgeiswyr. Rhoddwyd cymorth i dros 170 ohonynt, gan roi cyfanswm o dros £234,000 (cyfartaledd o tua £935 y cais). Mae natur y cynlluniau a gefnogwyd wedi bod yn amrywiol iawn. Cyfrannwyd at adnewyddu adeiladau, prynu offer megis cadeiriau, llwyfannau ac offer uchelseinydd, offer chwaraeon a gwella adnoddau clybiau, adeiladu meysydd chwarae i blant, prynu offer i wasanaeth papur i'r deillion, datblygu cylchgronau ysgol a phapurau bro, yn ogystal a myrdd o gynlluniau eraill.

Noder nad yw rheolau Cronfa Eleri yn caniatáu cefnogaeth reffeniw (h.y. costau cynnal rheolaidd), dim ond cefnogaeth i gynlluniau penodol. Ceir manyllion llawn ar wefan Cronfa Eleri <http://cronfaeleri.cymru>.

Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

Cynhyrchiad Ysgol Penglais o West Side Story



Disgyblion Ysgol Penglais yn perfformio West Side Story.

Llun: Grey Feather Photography

Bu mis Chwefror yn brysur iawn i rai yn Ysgol Penglais. Wrth iddyn nhw baratoi at berfformiad yr ysgol o West Side Story. Dyma'r cynhyrchiad gyntaf i'r ysgol ers dros pum mlynedd ac roedd yna dipyn o gyffro a pharatoi.

Roedd yn gynhyrchiad arbennig gyda dros cant o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan o dan arweinyddiaeth Mr Barrie Stott (Drama) a Miss Eleri Wynn Davies (Cerdd). Kelsey Evans gymrodd ran Maria gyda Emyr Dance fel Tony a Somee Malik fel Anita. Jake Blue Reeve-Yates oedd Bernardo ac Owain Edwards oedd yn actio Riff. Roedd canmol mawr i'r actorion ifanc, y côr a'r gerddorfa.

Mae Ysgol Penglais yn ddolchgar iawn i Wasanaeth Cerdd Ceredigion a hefyd i gerddorion o Ysgol Penweddig ac unigolion o'r gymuned leol a fu'n gymorth mawr i'r gerddorfa.

Actores a gymerodd ran "Anybodies" oedd Heledd Davies o Dal-y-bont sydd ym Mlwyddyn 7. Yn ôl Heledd mi wnaeth y profiad ei helpu i setlo yn yr ysgol "Mwynheais i gymryd rhan – roedd yn braf bod yn rhan o gwmni'r rhai hyn. Roedd yn hwyl perfformio ar lwyfan yr ysgol." Rhannodd y rôl gyda Matilda Kirk o Flwyddyn 8.

Roedd y perfformiad yn wych – a gwerthwyd pob tocyn i bob perfformiad.

Mae yna si ar led y bydd yr ysgol yn cyflwyno cynhyrchiad arall yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at hynny!

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

I'r sawl sydd yn meddwl fod hanes yn bwnc diflas, does ond angen i edrych ar yr amrywiaeth o gyfarfodydd mae'r Gymdeithas wedi gael dros y misoedd diwethaf.

Ym mis Tachwedd, daeth Yr Athro Geraint Jenkins i sôn am Ddoc Tom, Thomas Richards o Dre'rddôl, dyn cymhleth oedd, ar un llaw, yn cyhoeddi rhai o lyfrau academiaidd mwyaf sych yr iaith, ond, ar y llaw arall, yn medru ysgrifennu am ei fro ei hunan drwy gyfrol gynnes, agos-atoch, annwyl.

Wedyn daeth Jane Lloyd Francis i sôn am ei phenderfyniad i chwilio hen ffynhonnau ardal Machynlleth a Bro Ddyfi, rhai sydd wedi mynd yn angof, eraill sydd yn wynebu dyfodol ansicr.

Mis diwethaf clywsom gan Mike Freeman am y gwahanol arferion sydd wedi datblygu ynglŷn ag addurno beddau a blodau – arferion a darddodd yng Nghymru, mwy na thebyg, ac, yn achos Sul y Blodau, arferiad sydd yn unigryw i Gymru.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mawrth 22 yn Llanfach am 7.30, pryd y bydd Gerald Morgan yn ceisio datgymalu'r gwir a'r gau yn hanes Dewi Sant. Croeso cynnes i bawb.

argraffu da am bris da

Y Lolfa



holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

James Memorials

Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bampffed
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Gwasanaeth Cynnal a Chadw Gerddi
MYNACH
Garden Maintenance

Tori Porfa, Sietynau, Tirlunio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

Ffoniwch Meirion:
07792457816 / 01974 261758

e-bost:
mynachhandyman@yahoo.com

K Hughes

Plymio a Gwresogi
Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Placs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Ydych chi eisiau datblygu diddordebau neu sgiliau newydd,
gweithio tuag at gymhwyster neu wella eich sgiliau ar gyfer y gweithle?

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys:

cyfrifiadura, hel achau, mathemateg, ysgrifennu creadigol, cadw'n heini,
gosod blodau, coginio/pobi a llawer mwy.

Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth:

 Dysgu
Bro
CEREDIGION
Community
Learning

01970 633540
admin@dysgubro.org.uk
www.dysgubro.org.uk

Ysgol Llangynfelyn

Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel

Roedd yn ddiwrnod Defnyddio'r Rhyngwrwyd yn Fwy Diogel ar Chwefror y 9^{fed}. Fel rhan o'r gweithgareddau yn ystod yr wythnos, bu'r plant yn dysgu am sut i fod yn ddiogel ar y we yn yr ysgol ac yn eu cartrefi. Cafwyd cyflwyniad ar ôl ysgol i'r rhieni gan Duncan Kerridge, y Llywodraethwr yng ngofal e-ddiogelwch, ac roedd yn gyfle da i'r rhieni ddysgu am gyfryngau cymdeithasol a sut i gadw eu plant yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Daeth PC Alun Jones i'r ysgol i gynnal gweithdai gyda'r plant hŷn ar wahanol elfennau o e-ddiogelwch gan gynnwys seibr-fwlio a 'Ffrind neu Elyn'. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn dysgu am ddiogelwch o amgylch moddion a thabledi.

Clwb Celf

Mae'r Clwb Celf wedi bod yn brysur iawn yn gweithio ar fodelau o adeiladau yn ystod yr wythnosau diwethaf. Maent wedi creu stryd o dai gyda ffordd wedi'i oleuo. Rydym yn ffodus iawn i gael cymorth athrawes brofiadol ac artist proffesiynol yn y Clwb. Mae croeso i unrhyw blant oed Cynradd ymuno yn y Clwb. Cysylltwch gyda Jenny Dingle (01970 832788) am ragor o wybodaeth.

Ymweliad Nyrs Ysgol

Fel rhan o'u thema 'Baw, Annibendod a Chymysgeddau', mae plant y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn chwarae gydag amryw o ddeunyddiau blêr yn y dosbarth a thu allan. Daeth y Nyrs Ysgol i'r Caban i siarad gyda'r plant am bwysigrwydd golchi dwylo a defnyddiodd beiriant a hylif arbennig i ddangos i'r plant sut mae germau yn medru aros ar eu dwylo os nad ydynt yn golchi eu dwylo'n iawn.

Eisteddfod yr Ysgol

Ar Ddydd Gŵyl Dewi, cafwyd ein Heisteddfod Ysgol. Bu'r plant yn cystadlu'n frwd drwy'r prynhawn gyda phob un plentyn yn adrodd ac yn canu ar y llwyfan. Y beirniad oedd Mrs Beryl Jones, Ffosttrasol. Roedd yn hyfryd iawn gweld Mrs Siwan Evans ac Elsi yn yr ysgol gan fod Mrs Evans wedi cyfeilio i'r cystadleuwyr. Diolchwn yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am baratoi paned a chacen yn ystod yr Eisteddfod. Ar ôl yr holl gystadlu ar y llwyfan a'r cystadlaethau Celf a Llawysgrifen roedd y sgôr terfynol yn hollol gyfartal gyda Mochno a Chletwr yn ennill yr eisteddfod. Dyma'r prif enillwyr:



Bardd y Gadair – Tilly Heathfield
Pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen – Alice Groves ac Ava Lewis
Pwyntiau uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2 – Tilly Heathfield
Adroddwr gorau yn y Cyfnod Sylfaen – Hopcyn Cosson
Adroddwr gorau yng Nghyfnod Allweddol 2 – Finn Langley
Canwr gorau yn y Cyfnod Sylfaen – Amber Lewis
Canwr gorau yng Nghyfnod Allweddol 2 – Jasmine Berry

Diwrnod y Llyfr

Ar Ddiwrnod y Llyfr, gwisgodd y plant a'r staff fel cymeriadau allan o'u hoff lyfr. Roedd y gwisgoedd yn wych! Daeth Mrs Falyri Jenkins i'r ysgol yn y bore i ddangos llyfr wedi'i gyhoeddi gan CAA. Mwynhaodd y plant ddysgu caneuon newydd o'r llyfr. Yn y prynhawn, aeth plant y Cyfnod Sylfaen draw i Siop Cynfelyn i'r sesiwn 'Amser Stori'. Cafwyd sesiwn hwyliog iawn yno gyda Mrs Medi James.



Pantomeim New Dyfi Players

Ers amryw o flynyddoedd bellach, mae rhai o blant yr ysgol wedi cymryd rhan ym mhanomeim blynyddol y New Dyfi Players a berfformiwyd yn Ysgol Bro Hyddgen yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror. Eleni, teitl y pantomeim oedd – 'The Lord of the Bling'. Llongyfarchiadau mawr iawn i Asher Wood, Katy Indeka, Dylan a Maia Kerridge ar eu perfformiadau a hefyd i Rowan Tvedt a Poppy Kerridge, y ddwy yn gyn-ddisgyblion Ysgol Llangynfelyn. Llongyfarchiadau hefyd i Duncan Kerridge a Rob Foster, dau o rieni'r ysgol am actio a chanu mor dda.

Ymweliad gan yr awdur Jon Mayhew

Daeth yr awdur llyfrau plant, Jon Mayhew, i'r ysgol yn ystod Wythnos y Llyfr. Bu'n siarad gyda'r plant am ei yrfa fel awdur a'i ysbrydoliaeth i ddechrau ysgrifennu llyfrau i blant. Roedd ei gyflwyniad yn ddiddorol iawn a bu'r plant yn gofyn amryw o gwestiynau diddorol iddo am ei lyfrau a sut mae'n cael syniadau mor gyffrous ac iasol. Cafwyd cyfle i brynu ei lyfrau ac arwyddodd Jon y llyfrau i'r plant. Mae Jon yn Gymrodwr Ysgrifennu'r Gymdeithas Lenyddol Frenhinol ym Mhrifysgol Aberystwyth.



Cylch Meithrin Tal-y-bont

Y Lolfa

Aeth criw y Cylch Meithrin am dro i'r Lolfa yn ddiweddar i ddysgu sut mae llyfr yn cael ei argraffu. Roedd y plant wrth ei boddau yn gweld y peiriannau wrth eu gwaith a'r storfa anferth yn gartref dros dro i'r holl lyfrau. Diolch yn fawr iawn i Staff Y Lolfa am ein croesawu ac am yr holl wybodaeth diddorol am fywyd y llyfr.



Diydd Gŵyl Dewi

Hyfryd oedd gweld y plant yn ei gwisgoedd traddodiadol Cymreig a chrysau ryggi yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Diwrnod y Llyfr

Roedd y Tŷ Sbri yn llawn o arch-arwyr, tywysogesau a chymeriadau lliwgar ar ddydd lau, 3^{ydd} o Fawrth. Daeth y plant i'r Cylch fel cymeriadau o'u hoff llyfrau i ddathlu Diwrnod y Llyfr mewn steil!

Adolygiad: Ceredigion Wrth fy Nhraed

Iestyn Hughes, Gwasg Gomer £14.99

Rydyn ni gyd yn ffotograffwyr nawr.



Mae pawb â'i ffôn symudol wrth law ac yn barod i dynnu llun ar amrantiad a mae hynny'n wych o beth ond ambell dro mae hi werth edrych ar waith crefftwr yn y maes a sylwi ar fframio cywrair, defnydd creadigol o olau ac ôl aros am yr union

ddelwedd. Dyna beth sydd yng nghyrol Iestyn Hughes – gwaith crefftwr sydd wedi sylwi ar ryweth newydd, wedi treulio amser i gael y golau cywir ac wedi creu delweddau cryf.

Casgliad sydd yma o ffotograffau y mae Iestyn wedi eu tynnu ar hyd a lled Ceredigion. O'r gogledd i'r de, o'r môr i'r mynydd a rwy'n credu mai ei luniau o'r pegynnau yw'r rhai mwyaf trawiadol. Mae'r llun o goedwig danddwyr y Borth yn wirioneddol wych ac o gofio bod cymaint o bobl wedi tynnu llun o'r un peth yn yr un lle y mae'n dipyn o gamp creu delwedd sydd wir yn creu argraff.

Mae ei lun o Afon Teifi ar dudalen 58 yn aros gyda fi hefyd gan iddo ddal rhyw lonyddwch pert iawn fel gyda'r llun o Biod y Môr ger Clarach. Ond peidiwch meddwl mai casgliad o luniau mannau twristaidd y sir sydd yma. Mae yma gasgliad hyfryd o ardal Talybont gan ddarlunio mannau gwaith cyfoes – y sied gneifio, y lloc, a'r tirlun amaethyddol trawiadol ar ochrau Pumlumon. Ac y mae yma

Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Rheoli Neuadd Goffa Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Pwyllgor Neuadd ar 10^{ed} Chwefror 2016, gan ddod â blwyddyn lwyddiannus arall i ben. Er i'r nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn y Neuadd dros y flwyddyn ddiwethaf leihau, mae sefyllfa ariannol y Neuadd Goffa yn parhau'n iach – yn bennaf o ganlyniad i'r arian a godir yn y Ffair bob mis Tachwedd. Penderfynodd y Pwyllgor Rheoli felly i beidio â chodi'r prisiau llogi eleni chwaith, a chefnogaeth barhaol y gymuned i'r Ffair flynyddol sydd yn ein caniatáu i gadw'r prisiau llogi yn gyson.



Catrin M S Davies a Bob Williams yn cyflwyno rhodd o waith Ruth Jên i Geraint Pugh fel arwydd o werthfawrogiad y pwyllgor

Roedd hi'n drist nodi i ddau aelod gweithgar iawn o'r Pwyllgor Rheoli farw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – Glenys Edwards a Goronwy Jones. Talwyd teyrnged iddynt gan y Cadeirydd, Catrin M S Davies, yn ystod ei hadroddiad ar ddiwedd ei chyfnod yn y swydd, ac fe bwysleiswyd yr angen i annog aelodau newydd i ymuno â'r Pwyllgor. Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno â'r Pwyllgor gysylltu gyda'r Cadeirydd newydd, Bob Williams, Pengwern.

Roedd nifer o swyddogion y Pwyllgor Rheoli yn dod i ddiwedd eu tymhorau yn y swyddi. Diolchwyd i Catrin M S Davies a Geraint Pugh am wasanaethu fel Cadeirydd ac Ysgrifennydd. Bob Williams a Phil Davies fydd yn eu holynu. Bydd Ieuan Morgan yn parhau fel Trysorydd Cyffredinol, a David Nutting fel Trysorydd Codi Arian. David Nutting a benodwyd yn Is-Gadeirydd.

Ar lefel bersonol, hoffwn ddiolch o galon i aelodau'r Pwyllgor Rheoli am eu rhodd hael iawn wrth imi ddod i ddiwedd fy nhymor fel Ysgrifennydd y Pwyllgor Neuadd wedi pum mlynedd yn y swydd. Rwyf wrth fy modd gyda'r llun comisiwn o waith Ruth Jên!

Geraint Pugh

ffotograffau hefyd o'r gweithiau mwyn fel y mae nhw heddiw.

Y mae'n gyfrol llawn ffotograffau hyfryd ond rwy'n meddwl mai gorchest Iestyn yw cyfod ei luniau gyda lluniau hanesyddol – yn baentiadau a ffotograffau cynnar. Mae cymharu ddod a heddiw yn gweithio'n arbennig yn y gyfrol hon gan bod Iestyn wedi dethol yr union luniau hanesyddol sydd yn ychwanegu at ei ffotograffau ef ac yn cyfoethogi'r profiad o weld Ceredigion drwy ei lens unigryw.

Catrin M S Davies



Beth Angell Noson Stand Up Gymraeg

**Y Llew Gwyn,
Tal-y-bont
18 Mawrth
8pm**

**Oedolion
yn unig
Adults
only**

**£7.00
y tocyn**

**Tocynnau ar
gael o'r Ysgol**

01970 832276

Y Gosb, Geraint Evans, Y Lolfa



Geraint Evans ac Elin Jones A.C.
adeg lansiio Y Gosb yn y Senedd yng
Nghaerdydd

Lansiwyd teitlau newydd Stori Sydyn 2016 gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis yn Oriel adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ddydd Iau, 25^{ain} Chwefror, ac ymysg y gyfres eleni, mae llyfr gan y nofelydd lleol Geraint Evans, yn adrodd stori am ferch sydd wedi ei threio ac sydd am ddial yn ei ffordd ei hun.

Gydag un o bob chwech oedolyn yn cael trafferth darllen, mae ymgyrch Stori Sydyn yn ceisio chwalu'r

rhwystrau ac annog pobl Cymru i ddarllen drwy gynhyrchu llyfrau byr a bachog sydd ar gael o lyfrgelloedd, siopau llyfrau ac ar-lein am £1 yn unig.

Dyweddodd Angharad Tomos o'r Cyngor Llyfrau: "Mae'r Storiâu Sydyn yn llyfrau byr a sionc sy'n cynnwys llai na 100 tudalen, ac wedi eu hysgrifennu'n arbennig ar gyfer pobl sy'n dymuno gwella eu sgiliau a'u hyder wrth ddarllen".

Yn *Y Gosb* ceir hanes Erin yn cael ei threio ar ei ffordd adref yn dilyn noson allan. Ei hymateb cyntaf yw ffonio'r heddlu ond mewn eiliad dyngedfennol mae'n oedi ac yn ystyried y goblygiadau: archwiliad meddygol, cael ei chroesholi, gorfod ail-fyw'r hunllef yn y llys ac ensyniadau ei bod yn gofyn amdani. Yn ei dicter, mae'n penderfynu dod o hyd i'w hymosodwr. Dim heddlu, dim llysoedd – hi a hi yn unig fydd yr erlynydd a'r un i bennu'r gosb.

Caiff corff y treisiwr ei ddarganfod a chaiff Gareth Prior a'i dîm eu galw i ddatrys y llofruddiaeth. Mae Erin yn tybio nad oes unrhyw ffordd o'i chysylltu â'r drosedd ond fe wnaeth un camgymeriad – camgymeriad sy'n profi nad oes y fath beth â'r llofruddiaeth berffaith.

Y Gair Olaf



Nid yn aml y mae digwyddiadau mawr Cymraeg yn cael eu cynnal yn ardal Aberystwyth, ond yn ddiweddar iawn, cefais y cyfle i fynychu'r noson arbennig 'Gwobrau'r Selar' yn Undeb y Myfyrwyr yn Aberystwyth. Mwynheais wrando ar y bandiau ifanc a newydd a oedd yn perfformio ac wrth gwrs yn derbyn gwobrau. Ac un peth a'm syfrdanodd oedd faint o bobl a deithiodd ar draws y wlad i ddod i'r noson fythgofiadwy.

Dyna braf oedd cael gweld cymaint o bobl o dan yr un to yn cymdeithasu yn uniaith Gymraeg, gan nad oes llawer o weithgareddau o'r fath yn digwydd yn aml y dyddiau hyn. Mi wn i nad ydy digwyddiadau fel hyn yn brin, oherwydd yn flynyddol mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn denu degau o filoedd o Gymry i ymgynnull er mwyn ailgynnu hen gysylltiadau coll o'r coleg neu creu cysylltiadau newydd. Ond un peth sydd yn fy mhryderu i yw nad oes digon o ddigwyddiadau o'r fath yn cael eu cynnal yn Aberystwyth.

Hynny yw, dylasai mwy gael ei wneud i ddenu digwyddiadau fel 'Gwobrau'r Selar' i ddod i Aberystwyth a hyd yn oed i Dal-y-bont fel y digwyddodd ar ddiwedd y 70au, er mwyn denu'r to iau i gymryd yr un ddiddordeb â'n rhieni er mwyn cadw'r sîn roc Gymraeg yn fyw. A oes rhai ohonoch chi ddarlennwyr yn cofio gig un o'r grwpiau roc Cymraeg gorau erioed, Edward H. Dafis, yn perfformio yn Neuadd Goffa Tal-y-bont? Mi fuasai hi'n wych cynnal cyngerdd o'r un safon eto yma yn y neuadd yn fuan.

Catrin Huws



**Bistro
Gannets**

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Mwy Nag Adeilad ... (hyd 24 Mawrth). Arddangosfa arbennig o gelf a barddoniaeth.

Darlith Flynyddol Morlan- Pantyfedwen 2016 (7.30, nos Lun, 25 Ebrill). Loretta Minghella, Prif Weithredwr Cymorth Cristnogol yn annerch ar y testun "Is Christianity Good for the Poor?".

Eisteddfod Calan Mai (4.30, Mercher, 27 Ebrill). Mynediad: £3. Cofrestru ar gyfer cystadlaethau llwyfan ac anfon gwaith cartref erbyn 15 Ebrill.

Manylion llawn ar wefan Morlan:
www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

Chwaraeon

CYTHRWFL YN Y BORTH



Cafwyd digon o enghreifftiau o 'chwarae'n troi'n chwerw' ar ein meysydd pêl-droed dros y blyneddau ond peidio â chwarae oedd achos chwerwder yn y Borth ar ddydd Sadwrn olaf Chwefror.

Yno roedd Tal-y-bont i fod i chwarae gêm gynghrair ar ail gae'r pentref ar feysydd Uppingham. Yn ôl Tal-y-bont nid oedd y maes trwm hwnnw mewn cyflwr digon da i chwarae, er bod rhai o'r tîm yn barod i fentro, a thîm y Borth yn frwd iawn i chwarae. Fel arfer ni fyddai 'na broblem ond nid oedd y dyfarnwr wedi cyrraedd i wneud penderfyniad ar gyflwr y maes. Nid oedd gan Borth dyfarnwr cydnabyddedig ac er y cynigiodd un o fechgyn y Borth i ddyfarnu, yn naturiol nid oedd Tal-y-bont yn fodlon â'r fath drefniant.

Cyrhaeddodd y dyfarnwr swyddogol dros hanner awr yn hwyr ac aeth ar y cae i brofi'i gyflwr. Nid oedd yn credu fod y cae mewn cyflwr digon da i chwarae, gan benderfynu gohirio'r gêm.

Mae'n debyg fod agwedd Tal-y-bont wedi cythruddo rhai o fechgyn y Borth wrth iddynt droi at y cyfryngau cymdeithasol i leisio'u barn. Serch hynny, rhaid parchu penderfyniad y dyfarnwr, hyd yn oed pe bai hwnnw'n troi lan yn hwyr.

Dyma fechgyn tîm Tal-y-bont dan 14 oed yn eu cit newydd a noddwyd gan A & D Tyres, Aberystwyth. Mae'r tîm wedi cael dechrau gwyth i hanner cyntaf o'r tymor ac heb golli yr un gêm. Mae hwn yn golygu eu bod yn 9 pwynt ar y blaen yng Nghynghrair Ieuencid Aberystwyth. Diolch i'r rheolwyr Wyn Benjamin, Tal-y-bont ac Andy Humphries, Bow Street, am eu gwaith caled a phob lwc i'r tîm yn ystod gweddill y tymor.

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278

www.davmorgarage.co.uk

Iwan Jones



Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Glanyrafon

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245
garethwhitelion@outlook.com**